



16 Rhagfyr 2020

I: bob dysgwr ym mlynyddoedd 11, 12 a 13

Rwy'n ysgrifennu atoch i roi mwy o wybodaeth i chi am sut y bydd yr asesiadau sy'n disodli eich arholiadau yn gweithio.

Fe wnaethom ganslo arholiadau ar gyfer TGAU, UG a Safon Uwch a gyflwynwyd gan CBAC yn 2021 oherwydd yr effaith y mae COVID-19 wedi'i chael ar eich addysg ers mis Mawrth.

Gofynnais i grŵp o benaethiaid ac arweinwyr colegau edrych ar sut y gellid asesu eich gwaith fel bod y graddau a gewch yn 2021 yn deg, er gwaethaf eich profiadau gwahanol, yn eich helpu i symud ymlaen ac ystyried eich lles. Mae'r grŵp hefyd wedi ystyried y safbwyntiau niferus gan bobl ifanc a rannwyd gyda ni drwy lythyrau, e-byst, arolygon a chyfarfodydd wyneb yn wyneb.

Sut y cewch eich asesu a phryd y bydd yn digwydd

Rwyf wedi derbyn y cyngor a roesant i mi a gallaf gadarnhau y bydd y gwaith yr ydych wedi'i wneud ar gyfer y rhan fwyaf o bynciau yn cael ei asesu mewn tair ffordd.

- asesiadau nad ydynt yn arholiadau megis gwaith cwrs neu asesiad llafar (lle mae'r rhain eisoes yn rhan o'r cymhwyster rydych yn ei gymryd)
- asesiadau mewnol a fydd yn cael eu marcio gan athrawon a darlithwyr; a
- asesiadau allanol, a farciwyd gan CBAC.

Dyma'r unig asesiadau a fydd yn cyfrif tuag at eich graddau yn 2021 ac nid ydym yn disgwyl i chi wneud unrhyw un o'r rhain tan ar ôl hanner tymor y gwanwyn. Bydd y sefydliad dyfarnu, CBAC, yn darparu'r deunydd ar gyfer yr asesiadau mewnol ac allanol a bydd yn rhannu gwybodaeth ymlaen llaw fel y gall eich athrawon a'ch darlithwyr eich helpu i baratoi. Bydd eich athrawon a'ch darlithwyr yn penderfynu sut a phryd y cynhelir yr asesiadau hyn fel y gellir eu cyflwyno fel rhan o'ch dysgu.

Cynhelir yr asesiadau mewnol rhwng 22 Chwefror a 23 Ebrill. Nid yw hyn yn golygu y cewch eich asesu'n barhaus, dim ond y bydd amser i'w cwblhau, yn enwedig os oes mwy o darfu a chyfnodau o hunanynsu.

Cynhelir yr asesiadau allanol rhwng 17 Mai a 29 Mehefin. Rwy'n gwybod bod rhai dysgwyr wedi bod yn poeni a yw'r rhain yn arholiadau mewn enw arall yn unig - nid yw hynny'n wir. Er y bydd asesiadau sydd wedi'u gosod yn genedlaethol y bydd pob dysgwr ledled Cymru

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Gohebiaeth.Kirsty.Williams@llyw.cymru
Correspondence.Kirsty.Williams@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

yn eu cymryd, ni chynhelir y rhain o dan amodau arholiad arferol, ac ni fyddant yn digwydd ar yr un dyddiad ac amser mewn neuadd arholi ac mewn tawelwch.

Gwn fod effaith bosibl asesiadau wedi bod yn bryder i lawer ohonoch, felly mae cyngor y grŵp wedi ystyried hyn. Bydd eich athrawon a'ch darlithwyr yn penderfynu sut mae asesiadau'n cael eu cynnal. Er enghraifft, gellid eu rhannu dros nifer o wersi, a wneir yn yr ystafell ddosbarth fel ei fod yn fwy hamddenol ac wedi'i gynllunio fel rhan o'ch dysgu fel eich bod yn fwy parod.

Rwyf wedi clywed yn uniongyrchol gan ddysgwyr eich bod am gael cymwysterau y gallwch fod yn falch ohonynt a dyna beth rwy'n ceisio'i wneud. Er y bydd yr asesiadau'n eich herio, fel eich bod yn barod ar gyfer eich camau nesaf, byddant hefyd yn deg ac yn adlewyrchu'r gwahanol amgylchiadau yr ydych wedi'u hwynebu.

Beth nesaf

Rwy'n gwybod efallai na fydd y llythyr hwn yn rhoi'r holl fanylion yr ydych ei angen. Bydd y sefydliad dyfarnu, CBAC, yn rhoi mwy o fanylion i'ch athrawon a'ch darlithwyr ar ddechrau'r tymor nesaf, gan gynnwys y pynciau allweddol ar gyfer y ddau fath o asesiad.

Bydd eich athrawon a'ch darlithwyr yn cynllunio eich dysgu i sicrhau eich bod wedi paratoi'n dda a bydd yr addasiadau presennol a wneir gan CBAC yn parhau.

Sicrhewch eich bod yn cael gwyliau haeddiannol a diogel. Mae 2020wedi bod yn flwyddyn heriol i chi ac rydych chi a'ch athrawon a'ch darlithwyr yn haeddu seibiant.

Ond cofiwch fod COVID-19 yn lledaenu pan fydd pobl yn dod at ei gilydd felly helpwch Gadw Gymru'n Ddiogel y Nadolig hwn drwy gadw at y rheolau a gobeithio, gyda'n gilydd, y gallwn atal yr haint rhag dod i mewn i'n cartrefi ac i mewn i'n hysgolion a'n colegau.

Diolch yn fawr



Kirsty Williams AC/AM
Y Gweinidog Addysg
Minister for Education